

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr, Practis  
Deintyddol White Arcade**

**25 Ionawr 2016**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd rhywfaint o oedi wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd Profiad y Claf .....	5
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	8
	Atodiad A.....	17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif nod AGIC yw:

- Cyfrannu at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd o ran y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Deintyddol White Arcade yn 4-5 White Arcade, Ffordd y Brenin, Abermo, LL43 1NY, ar 25 Ionawr 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd White Arcade yn cyrraedd y safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol â rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 o'r adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol White Arcade yn darparu gwasanaethau yn ardal Abermo yng Ngwynedd. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Practis cymysg yw Practis Deintyddol White Arcade, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn ogystal â gwasanaethau deintyddol preifat.

Mae tîm o staff y practis y cynnwys dau ddeintydd (y mae un ohonynt yn gweithio un clinig y mis yn y practis), tair nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o driniaethau deintyddol y GIG a rhai gwasanaethau deintyddol preifat.

### 3. Crynodeb

Yn ystod yr arolygiad hwn, cawsom adborth cadarnhaol iawn gan gleifion a oedd yn amlwg yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael gan y practis. Roedd digon o le yn yr adeilad, ac roedd yn lân ac yn daclus yn ôl pob golwg. Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i wella'r modd y mae iechyd deintyddol yn cael ei hybu ymhlith cleifion, gwella'r polisïau ar gyfer delio â chwynion, a sicrhau bod system ffurfiol ar waith i geisio adborth gan gleifion a gweithredu yn ei gylch.

Roedd ein canfyddiadau yn amrywio o ran pa mor dda y mae'r practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. O ganlyniad i hyn, ni allwn fod yn siŵr bod pob agwedd ar ofal yn cael ei chynllunio a'i darparu yn y ffordd fwyaf diogel posibl.

Gwnaethom geisiadau am welliant uniongyrchol mewn perthynas â gweithdrefnau brys (pan fydd claf yn cwmpo) ac roeddem yn fodlon ar ymateb y practis i hyn. Gwnaethom hefyd gais am welliant uniongyrchol i'r sefydliad ac argaeledd polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r defnydd diogel o gyfarpar pelydr-x, ac mae'r practis wedi rhoi mesurau ar waith i ddatrys y problemau hyn, yr ydym yn parhau i'w monitor. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion eraill ar gyfer gwella.

Yn groes i'n canfyddiadau negyddol, gwelsom fod safon y cofnodion yn dda a bod y gweithdrefnau ar gyfer dadhalogi offer yn briodol.

Gwelsom fod systemau ar waith i wahanol raddau i gefnogi'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau rheoli, ac nid oedd awdurdod yn cael ei ddirprwyo'n ddigonol yn y practis o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd llawer o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac nad oedd rhai ohonynt yn cael eu dilyn yn gyson. Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gennym o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Yn ystod yr arolygiad hwn, cawsom adborth cadarnhaol iawn gan gleifion a oedd yn amlwg yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael gan y practis. Roedd digon o le yn yr adeilad, ac roedd yn lân ac yn daclus yn ôl pob golwg. Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i wella'r modd y mae iechyd deintyddol yn cael ei hybu ymhlith cleifion, gwella'r polisiau ar gyfer delio â chwynion, a sicrhau bod system ffurfiol ar waith i geisio adborth gan gleifion a gweithredu yn ei gylch.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu barn ynghylch y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafwyd sylwadau megis:

*“Mae White Arcade yn bractis ardderchog; mae'r staff yn gyfeillgar a'r driniaeth yn wych.”*

*“Yn fy marn i, dyma un o'r deintyddion gorau yng Nghymru.”*

*“Yn gyffredinol, rwy'n fodlon iawn ar y deintydd, y nyrs, a staff y dderbynfa.”*

### Gofal urddasol

Dyweddodd y cleifion wrthym fod tîm y practis yn groesawgar iawn. Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais i'r cleifion a oedd yn ymweld ar gyfer apwyntiadau, yn ogystal â'r rheini yr oeddent yn siarad â hwy dros y ffôn.

### Gofal amserol

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod cleifion yn cyrraedd ac yn cael eu gweld yn brydlon ar gyfer eu hapwyntiadau. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym nad oeddent byth yn gorfod aros cyn cael eu gweld ar gyfer eu triniaeth. Cafwyd tri sylw gan gleifion a oedd yn dweud eu bod wedi gorfod aros ar adegau, ond nid i raddau annerbyniol.

### Cadw'n iach

Dyweddodd yr holl gleifion a roddodd adborth i ni eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, a chafwyd rhai sylwadau cadarnhaol ychwanegol megis “*cyfathrebu gwych*”.

Gwnaethom sylwi mai ychydig iawn o wybodaeth hybu iechyd deintyddol oedd ar gael i gleifion yn yr ystafell aros. Dylai'r practis wella hyn er mwyn achub ar gyfleoedd i roi cyngor i'w cleifion ar hylendid deintyddol da.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau bod mwy o wybodaeth hybu iechyd deintyddol yn cael ei harddangos yn yr ardal aros a'i darparu i gleifion.***

### Gofal Unigol

Nid oes maes parcio ger y practis deintyddol, ond dywedodd staff wrthym nad oedd hyn, hyd y gwyddent, yn peri problem benodol i gleifion. Mae gris wrth brif fynedfa'r practis, ond mae cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu defnyddio drws arall sy'n cynnig mynediad gwastad, ac maent yn gallu cael eu gweld yn un o'r ystafelloedd triniaeth heb unrhyw risiau.

Roedd polisi cwynion ar waith, a gwelsom rai cofnodion o gwynion blaenorol a oedd wedi cael eu gwneud a'u datrys. Roedd y cwynion hyn, yn ôl pob golwg, wedi cael eu rheoli'n briodol o fewn cyfnod rhesymol o amser. Roedd rhai agweddau ar y polisi cwynion nad oeddent yn cydymffurfio â gweithdrefnau cwyno GIG Cymru (sef 'Gweithio i Wella'<sup>1</sup>), ac nid oedd y polisi yn cynnwys gweithdrefn ar wahân i'w defnyddio gan gleifion sy'n cael triniaeth breifat.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Adolygu'r polisi cwynion ac, yn benodol:***

- ***Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer cwynion am driniaeth y GIG yn unol â 'Gweithio i Wella'.***
- ***Sicrhau bod darpariaeth ar wahân ar gyfer delio â chwynion am driniaeth ddeintyddol breifat sy'n cydymffurfio â rheoliadau 15 a 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.***

***Roedd y practis wedi dosbarthu holiaduron yn flaenorol er mwyn casglu barn cleifion ar y gwasanaeth, ac roedd wedi adolygu canlyniadau'r holiaduron hyn. Gwnaethom drafod yr angen am system i geisio adborth gan gleifion yn rheolaidd, adolygu'r canlyniadau, a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir gan gleifion.***

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>



***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau bod system ar waith i geisio adborth gan gleifion yn rheolaidd, ei ddadansoddi, a gweithredu yn ei gylch.***

## ***Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol***

Roedd ein canfyddiadau yn amrywio o ran pa mor dda y mae'r practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. O ganlyniad i hyn, ni allwn fod yn siŵr bod pob agwedd ar ofal yn cael ei chynllunio a'i darparu yn y ffordd fwyaf diogel posibl.

Gwnaethom geisiadau am welliant uniongyrchol mewn perthynas â gweithdrefnau brys (pan fydd claf yn cwmpo) ac roeddem yn fodlon ar ymateb y practis i hyn. Gwnaethom hefyd gais am welliant uniongyrchol i'r sefydliad ac argaeledd polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r defnydd diogel o offer pelydr-x, ac mae'r practis wedi rhoi mesurau ar waith i ddatrys y problemau hyn, yr ydym yn parhau i'w monitor. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion eraill ar gyfer gwella.

Yn groes i'n canfyddiadau negyddol, gwelsom fod safon y cofnodion yn dda a bod y gweithdrefnau ar gyfer dadhalogi offer yn briodol.

### Gofal diogel

Roedd systemau ar waith i hybu iechyd a diogelwch yn y practis. Gwelsom fod profion diogelwch wedi cael eu cynnal ar ddyfeisiau cludadwy, a dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei wneud bob dwy flynedd.

Roedd contract ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff peryglus a gynhyrchir gan y practis. Nid oes ardal awyr agored yn y practis, felly mae unrhyw wastraff sy'n aros i gael ei gasglu yn cael ei storio yn yr ystafell ddadhalogi. Gwnaethom drafod sut i wella'r sefyllfa hon, a chynghori'r practis i ystyried storio'r gwastraff hwn mewn biniau plastig, sy'n fwy diogel na bagiau plastig yn unig.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Adolygu sut y mae gwastraff sy'n aros i gael ei gasglu yn cael ei storio, a rhoi opsiwn mwy priodol ar waith.***

Roedd y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn enwedig yr un ystafell driniaeth a oedd wedi cael ei hadnewyddu yn ddiweddar.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ataliadwy yn y practis deintyddol hwn, oherwydd

gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, sy'n seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>2</sup> (WHTM 01-05). Ymhlith yr enghreifftiau roedd:

- Ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Argaeledd cyfarpar diogelwch personol megis menig untro, ffedogau, offer diogelu'r llygaid, a'r defnydd ohonynt
- Sinc benodedig ar gyfer golchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd i lanhau a sterileiddio offer yn amlwg mewn cyflwr da
- Llyfrau log i gadarnhau bod cyfarpar wedi cael sterileiddio, gan gynnwys profion dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio yn cael eu cadw'n electronig, ac roedd copi wrth gefn hefyd yn cael ei gadw.

Roedd y practis wedi dechrau cynnal archwiliad rheoli heintiau, ond nid oedd wedi ei gwblhau. Nid oedd erioed wedi cynnal unrhyw archwiliadau rheoli heintiau yn flaenorol. Gwnaethom gynghori'r practis i gynnal archwiliad blynyddol gan ddefnyddio offeryn archwilio Deoniaeth Cymru, sy'n cyd-fynd yn benodol â dogfen ganllaw Cymru ar ddadhalogi (WHTM01-05).

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynnal archwiliad rheoli heintiau. Defnyddio'r offeryn sy'n cyd-fynd â chanllawiau Cymru. Rhoi system ar waith i gynnal yr archwiliadau hyn yn rheolaidd.***

Roedd meddyginiaethau a chyfarpar ar gael i'w defnyddio petai achos brys yn ymwneud â chlaf yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi pryderon yr oedd angen i'r practis ymdrin â hwy o fewn 48 awr i'n harchwiliad oherwydd y risg bosibl i gleifion. Er bod pob aelod o staff yn meddu ar hyfforddiant cyfredol ar ddadebru, roedd y cyfarpar a'r meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys wedi'u storio mewn modd anhrefnus; nid oeddent yn barod i'w defnyddio, roeddent yn cynnwys hen chwistrelli, ac nid oeddent yn cynnwys cyfarpar priodol ar gyfer y llwybr anadlu. Ymatebodd staff y practis yn dda i'r adborth

---

<sup>2</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

hwn, ac roeddem yn fodlon ar y camau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa, er mwyn sicrhau bod y cyfarpar a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achos brys yn ddiogel i'w defnyddio petai angen gwneud hynny. Roedd y polisi dadebru wedi dyddio, ac roedd yn cyfarwyddo staff i ddilyn gweithdrefnau nad oedd arbenigwyr ym maes dadebru yn eu hargymell mwyach.<sup>3</sup>

***(O ran cyfarpar a meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achos brys, gwnaethom gais ar lafar am welliant uniongyrchol ar ddiwrnod ein harchwiliad. Aed ar drywydd y cais hwn drwy anfon cais ysgrifenedig yn syth ar ôl ein harchwiliad)***

Roedd y staff wedi bod i ddiwrnod hyfforddiant ar ddiogelu plant, ond dim ond un deintydd oedd wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion. Gwelsom fod angen i'r holl bolisiâu diogelu gael eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys y wybodaeth gyswllt leol berthnasol a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Adolygu'r polisiâu diogelu a sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth gyswllt leol berthnasol a'r gweithdrefnau i'w dilyn.***

Roedd peiriannau pelydr-x yn cael eu defnyddio yn y ddwy ystafell driniaeth yn y practis. Roedd y ddau beiriant wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y deintyddion a oedd yn eu defnyddio hefyd wedi cael hyfforddiant ar y lefel briodol.

Nid oedd y polisiâu a'r gweithdrefnau a ddylai fod ar waith, er mwyn helpu i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-x yn yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn briodol, yn ddigonol. Gwelsom nad oedd yr ardaloedd dan reolaeth<sup>4</sup> wedi'u nodi'n briodol, felly, roedd cyfyngu ar fynediad i'r ardaloedd hyn yn fwy anodd. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw gyfarwyddiadau gweithredol o ran yr hyn y dylai staff ei wneud petai diffyg ar y cyfarpar. Lle'r oedd polisiâu yn ymwneud â'r defnydd o belydr-x, templedi oedd y rhain, ac nid oeddent wedi cael eu

---

<sup>3</sup> Cyngor Dadebru y DU. [www.resus.org.uk/quality-Safons/primary-dental-care-quality-Safons-for-cpr](http://www.resus.org.uk/quality-Safons/primary-dental-care-quality-Safons-for-cpr)

<sup>4</sup> 'Ardaloedd dan reolaeth' yw'r ardaloedd lle mae profion pelydr-x yn cael eu cynnal, a lle mae ymbelydredd yn bresennol. Dylent gael eu nodi'n glir, a dylid cyfyngu ar fynediad iddynt at ddibenion iechyd a diogelwch.

cwblhau'n briodol ar gyfer y practis. Cymaint oedd ein pryder ynghylch y diffyg gwybodaeth hwn nes i ni ysgrifennu at y practis a gofyn iddo ymateb o fewn saith diwrnod, yn nodi ei gamau gweithredu. Roeddem yn fodlon, ar y cyfan, ar yr ymateb a gawsom. Rhaid nodi mai'r gweithwyr proffesiynol cofrestredig (deintyddion yn yr achos hwn) sy'n gyfrifol o hyd am sicrhau bod safonau ar waith i gydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol. Er y gall aelodau eraill o staff y practis helpu i gyflawni hyn, nid eu cyfrifoldeb hwy yw gwneud hynny yn y pen draw.

***(Gwnaethom gais am welliannau uniongyrchol i fynd i'r afael â hyn yn ystod ein harchwiliad, ac mae'r practis wedi ymateb yn ddigonol i roi sicrwydd i ni ei fod wedi delio â'r problemau)***

#### Gofal effeithiol

Dim ond un deintydd oedd yn gweithio'n llawn amser yn y practis, ac roedd yn gallu dangos tystiolaeth i ni o'r archwiliadau yr oedd wedi eu cynnal i geisio sicrhau cysondeb ac ansawdd y gofal yr oedd yn ei ddarparu. Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys archwilio'r peiriannau pelydr-x yn ogystal ag agweddau penodol ar y broses o gadw cofnodion. Gwnaethom awgrymu y gallai'r tîm adeiladu ar hyn drwy gynnal archwiliadau manylach o gofnodion y cleifion, er mwyn helpu i gynnal ansawdd a chysondeb y gofal.

Yn gyffredinol, roedd ansawdd cofnodion y cleifion yn gyson dda. Roedd tystiolaeth bod triniaeth wedi cael ei thrafod a'i chynllunio'n briodol â'r cleifion.

Gwelsom nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu bob amser yn cael ei gofnodi, a gwnaethom gynghori y dylid trafod hyn â chleifion a'i nodi'n gyson yn y cofnodion.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau bod rhoi'r gorau i smygu yn cael ei drafod â chleifion fel mater o drefn, lle y bo'n briodol, ac yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion.***

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Gwelsom fod systemau ar waith i wahanol raddau i gefnogi'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau rheoli, ac nid oedd awdurdod yn cael ei ddirprwyo'n ddigonol yn y practis o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd llawer o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac nad oedd rhai ohonynt yn cael eu dilyn yn gyson. Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gennym o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn.**

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd wedi cael ei ddirprwyo i'r nyrs ddeintyddol fwyaf profiadol. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael unrhyw gymorth na hyfforddiant penodol ym maes rheoli, ac roedd hefyd yn gwneud gwaith nyrsio yn ogystal â gwaith gweinyddol yn y dderbynfa. O ganlyniad, roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar y practis, a gwelsom fod diffyg gwybodaeth yn y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd yn cael eu dilyn. Roedd hyn yn awgrymu bod diffyg rheolaeth briodol yn cael effaith negyddol ar y broses o lywodraethu'r practis. Er enghraifft, gwelsom fod gweithdrefn sefydlu ar gael ar gyfer staff newydd, ond nad oedd y weithdrefn hon wedi cael ei dilyn pan oedd yr aelod newydd diweddaraf o staff wedi ymuno â'r tîm. Dywedwyd wrthym mai pwysau amser, a'r angen i gydbwysu amrywiaeth eang o gyfrifoldebau, oedd y rheswm dros hyn.

### ***Yr hyn sydd angen i wella***

***Sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i gyflawni cyfrifoldebau rheoli, a bod y staff sy'n gyfrifol am wneud y gwaith hwn yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth priodol i gyflawni'r rôl hon.***

***Sicrhau bod staff newydd yn cael eu sefydlu'n briodol.***

Er gwaethaf hyn, gwelsom dîm o staff ar waith a oedd yn ymddangos yn fodlon ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Roedd tîm y practis (nyrsys deintyddol a deintyddion) wedi bod yn gymharol sefydlog, ac roedd rhai o'r staff wedi bod yno am nifer o flynyddoedd. Roedd pob aelod o'r tîm yn cyfathrebu'n agored ac yn gyfeillgar â'i gilydd drwy gydol ein hymweliad.

Roedd y nyrs ddeintyddol/rheolwr y practis wedi cwblhau arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o staff. Gwelsom werth dros flwyddyn o dystiolaeth a oedd yn dangos bod cwblhau arfarniadau yn arfer sefydledig yn y practis.

Mae amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau yr ydym yn disgwyl eu gweld ar waith ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i redeg practis deintyddol yn

ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y mwyafrif o'r polisïau hyn ar gael; fodd bynnag, roedd llawer ohonynt wedi dyddio, neu wedi cael eu hargraffu o wahanol ffynonellau ar y Rhynggrwyd, ac am nad oeddent wedi cael eu hailysgrifennu i adlewyrchu amgylchiadau'r practis hwn, nid oeddent yn berthnasol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau:***

- ***Bod y dyddiad creu wedi'i argraffu a'r dyddiad adolygu wedi'i nodi***
- ***Eu bod wedi cael eu haddasu a'u hysgrifennu ar gyfer anghenion practis deintyddol White Arcade.***

Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant, gwelsom fod staff wedi bod ar amrywiaeth o gyrsiau, wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein, ac wedi manteisio ar gyfleoedd addysg eraill megis darllen cylchgronau a phapurau deintyddol. Ar wahân i un deintydd, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion. Gwnaethom drafod hyn, ac argymhell y dylent ddod o hyd i gyfleoedd hyfforddi addas cyn gynted â phosibl.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dod o hyd i gyrsiau hyfforddi addas ar ddiogelu oedolion er mwyn gwella gwybodaeth y tîm ymhellach.***

## 5. Y Camau Nesaf

Yn sgil yr arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol White Arcade yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.



## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>5</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011<sup>6</sup>. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>

1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

**Atodiad A**

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol White Arcade**

**Dyddiad yr Arolygiad: 25 Ionawr 2016**

<b>Rhif y Dudalen</b>	<b>Yr Hyn Sydd Angen ei Wella</b>	<b>Rheoliad/ Safon</b>	<b>Camau gan y Practis</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
	Sicrhau bod mwy o wybodaeth hybu iechyd deintyddol yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros a'i darparu i gleifion.	Safon 1.1			
	Adolygu'r polisi cwynion ac, yn benodol: <ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer cwynion am</li></ul>	Safon 6.3 Rheoliad 15 Rheoliad 16			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>driniaeth ar y GIG yn cydymffurfio â 'Gweithio i Wella'.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod darpariaeth ar wahân ar gyfer delio â chwynion am driniaeth ddeintyddol breifat sy'n cydymffurfio â rheoliadau 15 a 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.</li> </ul>				
	<p>Sicrhau bod system ar waith i geisio adborth gan gleifion yn rheolaidd, ei ddadansoddi, a gweithredu yn ei gylch.</p>	<p>Safon 6.3</p>			
	<p>Mater brys y dylid rhoi sylw iddo o dan weithdrefnau sicrwydd uniongyrchol:</p> <p>Gwelsom chwistrelli a nodwyddau yn y bocs triniaeth frys a oedd wedi</p>		<p>Mae'r practis wedi cwblhau pob cam sy'n gysylltiedig â hyn.</p>		

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>dod i ben yn 2004.</p> <p>Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â Rheoliad 14 (3) (b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Yn benodol, rhaid i bob eitem yn y bocs triniaeth frys fod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio bob amser.</p>				
	<p>Mater brys y dylid rhoi sylw iddo o dan weithdrefnau sicrwydd uniongyrchol:</p> <p>Nid oedd yr un ardal dan reolaeth wedi'i dynodi. Diben yr ardaloedd hyn yw dangos ble mae profion pelydr-x yn cael eu cynnal, a ble y dylid cymryd unrhyw ragofalon diogelwch arbennig.</p> <p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod gweithdrefnau diogelu rhag ymbelydredd yn cael eu cwblhau,</p>		<p>Mae'r practis wedi cwblhau pob cam sy'n gysylltiedig â hyn.</p>		

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>a'u bod yn bodloni gofynion y Rheoliadau perthnasol. Yn benodol, rhaid i'r ardaloedd lle mae profion pelydr-x yn cael eu cynnal, gael eu dynodi'n ardaloedd dan reolaeth, a dylid cymryd pob cam diogelu i gefnogi hyn.</p> <p>(Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999)</p>				
<b>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
8	Adolygu sut y mae gwastraff sy'n aros i gael ei gasglu yn cael ei storio, a rhoi opsiwn mwy priodol ar waith.	Safon 2.4			
9	Cynnal archwiliad rheoli heintiau. Defnyddio'r offeryn sy'n cyd-fynd â chanllawiau Cymru. Rhoi system ar waith i gynnal yr archwiliadau hyn yn rheolaidd.	Safon 2.4			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Adolygu'r polisïau diogelu a sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth gyswllt leol berthnasol a'r gweithdrefnau i'w dilyn.	Safon 2.7			
	Sicrhau bod rhoi'r gorau i smygu yn cael ei drafod â chleifion fel mater o drefn, lle y bo'n briodol, ac yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion.	Safon 1.1			
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
	Sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i gyflawni cyfrifoldebau rheoli, a bod y staff sy'n gyfrifol am wneud y gwaith hwn yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth priodol i gyflawni'r rôl hon.	Safon 7.1			
	Sicrhau bod staff newydd yn cael eu	Safon 7.1			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	sefydlu'n briodol.				
	Adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau: Bod y dyddiad creu wedi'i argraffu a'r dyddiad adolygu wedi'i nodi Eu bod wedi cael eu haddasu a'u hysgrifennu ar gyfer anghenion practis deintyddol White Arcade.	Safon 2.1 Safon 3.1			
	Dod o hyd i gyrsiau hyfforddi addas ar ddiogelu oedolion er mwyn gwella gwybodaeth y tîm ymhellach.	Safon 2.7			

## Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): .....



**Teitl:**

.....

**Dyddiad:**

.....